## Ydych chi'n wyliwr adar neu'n ffotograffydd brwdfrydig...

## Barod i fod yn ddinesydd gwyddoniaeth?

gwerth mewn gwahaniaeth

delivering on distinction

# Arolwg Adar Môr Ynys Lawd

## Y Prosiect

Mae Prifysgol Bangor a'r Sea Watch Foundation yn cynnal prosiect yn ystod haf 2023 i ymchwilio i'r rhywogaethau ysglyfaethus sydd wedi magu cywion gan lursod, palod a gwylogod ar Ynys Lawd, Ynys Môn. Mae Arolwg Adar Môr Ynys Lawd yn ymchwilio i ddiet rhywogaethau adar môr lleol, a sut y gall rhain newid dros amser. Bydd edrych ar rywogaethau adar môr ysglyfaethus yn cynnig gwell ddealltwriaeth i'r prosiect o'r ysglyfaeth sydd ar gael ac yn y pen draw sut mae hyn yn effeithio ar niferoedd adar y môr a mamaliaid morol yn yr ardal. Byddwn yn gosod data ar y lluniau i'w dadansoddi fel rhan o'r prosiect MCRP. Mae'r MCRP yn brosiect ymchwil a datblygu arloesol fydd yn sicrhau gosod tyrbinau ynni llanw fesul cam yn ddiogel ym Mharth Arddangos Morlais.

## Sut gallwch chi helpu?

Y cyfan sydd ei angen arnom yw lluniau da o lursod, palod a gwylogod yn cario bwyd naill ai wrth hedfan neu ar dir yn y nythfa, a rhywfaint o wybodaeth gysylltiedig.

## Sut i gymryd rhan?

Os ydych chi'n meddwl fod gyda chi'r talent i dynnu llun o adar y môr gydag ysglyfaeth, rydym yn eich gwahodd i fynychu sesiwn hyfforddi i ddechrau'r broses.

Cysylltwch gyda:
mcrp@mentermon.com

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Nid yw Menter Môn yn gyfrifol am ddiogelwch y cyhoedd wrth dynnu lluniau i'w danfon at y Prosiect Ymchwil i Nodweddion Morol. Cynghorir chi i barchu'r Cod Cefn Gwlad trwy gydol eich amser wrth dynnu lluniau o fannau a llwybrau cyhoeddus. Wrth geisio tynnu llun, peidiwch ag achosi anaf na gwneud unrhyw beth i godi ofn ar unrhyw anifail neu niweidio ei gynefin, naill ai'n fwriadol neu'n anfwriadol. Mae hyn yn cynnwys hedfan dronau, na ddylai fod yn rhy swnllyd nac yn hedfan yn rhy agos at fywyd gwyllt, eu cynefinoedd neu eu safleoedd nythu. Mae'n rhaid i chi berchnogi'r trwyddedau angenrheidiol ar gyfer tynnu lluniau bywyd gwyllt a hedfan dronau. Rhaid tynnu lluniau yn gyfrifol gan gadw at holl ganllawiau Llywodraeth Cymru a'r DU. Rhaid parchu cynefinoedd, cymunedau a busnesau lleol megis tir fferm a gwarchodfeydd natur lle gall cyfarwyddiadau lleol fod yn eu lle ar gyfer ymwelwyr, cerddwyr ac eraill sy'n mwynhau cefn gwlad.